

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 26/03/2019 am 6.30y.h..

Minutes of meeting held Tuesday evening, 26/03/2019 at 6.30pm.

Presennol / Present: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson), Mr Cenwyn Williams **CW**, Mr Chris Davies **CD**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc / Clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Mr Mark E. Evans **MEE**, Mr Steven A. Jones **SAJ**, Cynghorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**.

Yn absennol / Absent: Ms Kirsty L. Campbell **KLC**.

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
*The meeting was chaired by **ST** and all present were welcomed.*

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dim. / *None.*

3. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 26/02/19. / Minutes of last meeting 26/02/19.

Derbyniwyd y cofnodion 26/02/19 yn gywir, Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **CW**.
*The minutes 26/02/19 were confirmed correct, Proposed by **ST**, Seconded by **CW**.*

4. Balans ar 01/03/2019. / Balance on 01/03/2019.

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/03/2019)	-	£ 6,873.96
Cynilo "BMM" (ar 22/02/2019)	-	£ 4,459.25
	=	<u>£11,333.21</u>

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 18/03/2019. / Y Ganolfan Bank balance on 18/03/2019.

Cyfrif "Community" (ar 18/03/2019)	-	£ 2,810.32
Cynilo "BMM" (ar 18/03/2019)	-	£ 3,308.96
Float Account (ar 18/03/2019)	-	£ 382.41
	=	<u>£ 6,501.69</u>

5. Cyllid / Finance

5.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid

£152.00 - Adnewyddu aelodaeth Un Llais Cymru am 2019/20. / *Renewing One Voice Wales' membership for 2019/20.*

£400.00 - Mr M Evans – Hel ysbwriel yn y cae chwarae 2018/19. / *Collect rubbish in the playing field 2018/19.*

£25.00 - Cyfraniad i Ambiwylans Awyr Cymru. / *Donation to Wales Air Ambulance.*

£85.14 - G L Jones am paent glas i cae chwarae. / *Blue paint for the playground.*

5.2 Biliau iw dalu / Bills for payment

Dim. / *None.*

5.3 Taliadau wedi Derbyn / Payments Received

Dim. / *None.*

5.4 Adroddiad Cyllidol Chwarterol Ionawr - Mawrth 2019. / Quarterly Financial Report January - March 2019.

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad cyllidol chwarterol ar gyfer Ionawr - Mawrth 2019, y cyllideb 1/4/19 - 30/6/19 yn ogystal ag adroddiad blyneddol 2018/2019 gyda'r agenda. / *The Clerk presented the quarterly financial report for January - March 2019, the budget 1/4/19 - 30/6/19 as well as the yearly accounts 2018/2019 with the agenda.*

Trafodwyd a derbyniwyd yr adroddiad gan y Cynghorwyr. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith. / *The report was discussed and accepted by the Councillors. The Clerk was thanked for her work.*

Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **CW**. / *Proposed by ST, Seconded by CW.*

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

6.0.1 Ffurflenni Cofrestr Buddiannau – Diweddarau, ffurflen gan **MEE, CD, KLC** i wddod. Ar ôl gwneud ymholiadau nid oes copi / fersiwn Saesneg ar gael. / *Benefits Register Forms – Update, MEE, CD, KLC are still outstanding. After making enquiries there is no English version / copy available.*

6.0.2 Cae Chwarae / Asesiad Risg. / *Playing field / Risk Assessment.*
Adroddiad / diweddariad. / *Report / update.*

CW wedi trefnu bydd gwaith cynnal a chadw ar yr offer yn y cae chwarae e.e peintio yn cael eu wneud naill ai fory neu Dydd Iau. / *CW has arranged for the maintenance work on the equipment in the playing field e.g. painting to be done either tomorrow or Thursday.*

CW wedi derbyn pris amganyfrif (£5,500 heb cynnwys pris gosod) am pump eitem o offer i cae chwarae. Bydd y cwmni yn dod yma yn fuan i rhoi amcangyfrif bydd yn cynnwys pris i osod yr offer. / *CW has received a quotation (£ 5,500 excluding installation price) for five items of equipment*

for the playing field. The company will come here soon to give an estimate which will include a price to install the equipment.

- 6.0.3 Cronfa PACT gan y heddlu. / *PACT Funding from the police.*
Mae angen i ni gysylltu gyda'r heddlu i ddweud ein bod wedi penderfynnu prynu offer newydd ar gyfer y cae chwarae ac i geisio gwneud cais am y grant y maent yn ei gynnig i'n helpu i brynu yr offer. / *We need to contact the police to say that we have decided to buy new equipment for the playing field and to try to apply for the grant they offer to help us buy the equipment.*
- 6.0.4 Cae Pêl Droed Maes Chwarae - Rhwydi goliau / *Playground Football Field - Goals netting*
Adroddiad / diweddariad. / *Report / update.*
CW wedi trefnu bydd y netiau newydd i'r gôl yn cael eu gosod naill ai fory neu Dydd Iau. / *CW has arranged for the new goal netting to be replaced either tomorrow or Thursday.*
- Mae angen cofnodi bod llawer o boteli gwydr wedi ei torri o gwmpas y cae chwarae / cae peldroed sydd yn berygl i blant ac anifeiliaid anwes. Mae angen gwneud rhywbeth i leihau hyn cyn i rywun gael ei frifo. / *There is a need to note that there is a lot of broken glass bottles found around the playing field / football field which is a danger to children and pets. Something needs to be done to reduce this before someone gets hurt.*
- 6.0.5 Allotments o fewn yr ardal. / *Allotments within the area.*
Penderfynnwyd i rhoi gwahoddiad i Mr Dunning i'r cyfarfod mis Ebrill er mwyn cael trafod gyda fo y posibilrwydd o cael allotments o fewn yr ardal Brynsiencyn ag i feddwl beth yw cam ymlaen gyda hyn. / *It was decided to invite Mr Dunning to the April meeting in order to discuss the possibility of having allotments within the Brynsiencyn area and to consider what is a step forward with this.*
- 6.0.6 Mandad y Banc. / *Bank Mandate.*
ST wedi cwblhau mandad y banc ar lein, angen mynd a'r ffurflen i'r banc. / *ST has completed the bank's online mandate, need to take the form to the bank.*
- 6.0.7 Gwefan Cyngor Cymuned. / *Community Council's website.*
Gwybodaeth diweddaraf gan **DR**. / *Latest information from DR.*
- 6.0.8 Peiriannau bagiau baw ci. / *Dog bag dispensers.*
Gwybodaeth diweddaraf, aros am anfoneb. / *Latest information, waiting for an invoice.*
- 6.0.9 Cabinet. / *Filing cabinet.*
Aros am ymateb gan **EWJ**. / *Waiting for a reply from EWJ.*

- 6.1.0 Y Comisiwn Elusennau. / *Charity Commission.*
Gwybodaeth yr ymddiriedolwyr wedi cael ei diweddaru. / *Trustees information has been updated.*
- 6.1.1 Eglwys Llanidan. / *Llanidan Church.*
LH wedi gyrru llythyr. / ***LH** has sent a letter.*
- 6.1.2 Goleuadau stryd yn Bryn y Gelli. / *Bryn y Gelli street lamps.*
Dau golau stryd ddim yn gweithio, aros am ymateb gan Pennaf. / *Two street lamps not working, waiting for a reply from Pennaf.*
- 6.1.3 Cynrychiolwydd Cyngor Cymuned Llanidan ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn. / *Representative of Llanidan Community Council on board of Governors in Ysgol Brynsiencyn.*
Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd i gysylltu gyda **KLC** yn egluro ein bod ni wedi cytuno mai **MEE** fydd yn cynrychioli Cyngor Cymuned Llanidan ar fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn. **LH** wedi ysgrifennu llythyr at y pennaeth i gadarnhau hyn. Mae llywodraethwyr yn awyddus i llenwi set y Cyngor Cymuned cyn ymweliad Estyn a bydd croeso iddi ceisio am y set yn y dyfodol. / *Following discussion it was decided to contact **KLC** explaining that we have agreed that **MEE** would represent Llanidan Community Council on board of the Governors at Brynsiencyn School. **LH** has written a letter to the headteacher to confirm this. The school governors are eager to fill the seat prior to Estyn's visit and that she will be welcome to apply for the seat in the future.*
- 6.1.4 Llwybr Rhif 8. / *Footpath Number 8.*
Mater wedi ddatrys rwan. / *The issue has now been resolved.*
- 6.1.5 Archwilwyr Mewnol ac Allanol. / *Internal and External auditors.*
Rydym wedi derbyn ebost gyda phris yr archwilydd mewnol i archwilio cyfrifon eleni. Cytundeb BDO yn dod i ben y flwyddyn nesaf ac yn cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru wedyn. / *We have received an email with the internal auditor's price to audit this year's accounts. BDO agreement expires next year and then will be carried out by Wales Audit Office.*
- 6.1.6 Gliniadur i'r clerc. / *Latop for the clerk.*
Angen penderfynnu pa un i brynu. / *Need to decide which one to buy.*
- 6.1.7 Un Llais Cymru. / *One Voice Wales.*
LH methu mynychu cyfarfod nos Iau 21/3/19 yn Llangefni. / ***LH** unable to attend Thursday evening's meeting on 21/3/19 in Llangefni.*
- 6.1.8 Cyfarfod blynyddol Y Ganolfan. / *Y Ganolfan's Annual General Meeting.*
Roedd pwyllgor Y Ganolfan yn siomedig nid oedd yna ddau gynrychiolydd o Gyngor Cymuned Llanidan yn eu cyfarfod yr wythnos diwethaf, fel hyn sydd yn digwydd fel yr arfer. / *Y Ganolfan's committee were disappointed*

that there was not two representatives from Llanidan's Community Council at their meeting last week, as this is what usually happens.

Aelodau y pwyllgor wedi cael eu enwebu gan ychwanegu is-gadeirydd i'r pwyllgor. Angen ychwanegu enwau y trysorydd ar is-gadeirydd i'r mandad y banc gyda unrhyw ddau i arwyddo y sieciau. Yr aelodau wedi penderfynnu cadw prisiau llogi Y Ganolfan yr run fath am y flwyddyn yma. / *Members of the committee have been nominated with the addition of a vice chairperson to the committee. The names of the treasurer and the vice-chairperson needs to be added to the bank mandate with any two to sign the cheques. The members had decided to keep Y Ganolfan's hire prices the same for this year.*

- 6.1.9 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. / *Independent Remuneration Panel for Wales.*
Amserlen flynyddol sydd angen ei ddilyn. / *Annual timetable that needs to be followed.*

7. Cynllunio / Planning

7.1 Ceisiadau / Applications

FPL/2019/60 - Bodowyr Isaf, Llangaffo, Cais llawn ar gyfer gyfer codi clamp silwair ar dir. / *Full application for the erection of a silage clamp land at Bodowyr Isaf, Llangaffo.*

7.2 Penderfyniadau / Decisions

FPL/2019/60 - Bodowyr Isaf, Llangaffo - Dim sylw. / *No comment.*

8. Gohebiaethau / Correspondence

Dim. / *None.*

9. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

9.1 Angen cysylltu gyda adran Priffyrdd ynglyn a tri twll ar y palmant ble mae chwynu wedi digwydd ac mae yna golwg bler yno y tu allan i dy yn Stad Tyn Cwrt rwan. / *Need to contact the Highways department regarding three holes on the pavement where weeding has taken place and there is now a mess outside the house in Tyn Cwrt Estate.*

9.2 Adroddiad Cyngorydd **EWJ / Councillor **EWJ** Report**

Mae'r ysgol gynradd yn brysur yn datblygu yr ardal tu allan gyda pridd a plannu blodau. / *The primary school is busy developing the outdoor area with soil and planting flowers.*

Mae angen dod o hyd i berchennog y trelar sydd wedi ei barcio yn maes parcio ger y Caffi Heritage oherwydd ei fod yn gwenud i'r lle edrych yn fler ac mae'n cymryd man

parcio. / *The owner of the trailer that has been parked in the car park near the Heritage Café needs to be found because it is making the place looks untidy and it is taking up a parking space.*

Mae angen ymestyn y lle parcio yn y maes parcio wrth ochr y Caffi Heritage gan fod yna ddau le wedi cael ei penodi i staff y caffi ac mae'r maes parcio bob amser yn llawn. Bydd hyn yn creu mannau parcio ychwanegol i gwsmeriad y caffi. / *There is a need to extend the parking area in the car park next to the Heritage Cafe as there are two spaces for the cafe staff and the car park is always full. This will create additional parking spaces for the cafe customers.*

10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

10.1 Nos Fawrth, 30/04/2019 am 6.30y.h. yn 'Y Ganolfan'.
Tuesday Evening, 30/04/2019 at 6.30pm in 'Y Ganolfan'.

10.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 8.30y.h.
The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 8.30pm.

Arwyddwyd – Cadeirydd / Signed – Chairperson

Dyddiad / Date: